CABINET

DYDD LLUN, 13 MAI 2024

PRESENNOL: Cynghorydd D. Price (Cadeirydd)

Cynghorwyr (Yn y Siambr):

G. Davies	H.A.L. Evans	L.D. Evans	P.M. Hughes
A. Lenny	E.G. Thomas	J. Tremlett	A. Vaughan-Owen

Cynghorwyr (Yn rhithwir):
C.A. Davies

Hefyd yn bresennol fel sylwedydd (O bell):
Y Cynghorydd D.M. Cundy

Hefyd yn bresennol (Yn y Siambr):
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
A. Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Amgylcheddol a Gwastraff
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
L. Jenkins, Swyddog Cymorth y Cabinet
C. Higginson, Rheolwr Cyfryngau
E. Evans, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Owens, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Hefyd yn bresennol (Yn rhithwyr):
S. Rees, Cyfieithydd ar y Pryd
D. Hall-Jones, Swyddog Cefnogi Aelodau

Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin. SA31 1JP ac o bell - 10.00 - 10.31 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

Y Cynghorydd / Swyddog	Rhif y Cofnod	Y Math o Fuddiant
Y Cynghorydd H.A.L. Evans	8 – Prydles hen Lys Castellnewydd Emlyn i Gyngor Tref Castellnewydd Emlyn	Yn aelod o Gyngor Tref Castellnewydd Emlyn

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

3. I LOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y CABINET A GYNHALIWYD AR Y 29AIN EBRILL 2024

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2024 yn gofnod cywir.

4. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

5. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd fod un cwestiwn wedi dod i law gan y cyhoedd.

5.1. CWESTIWN GAN MR HAVARD HUGHES I'R CYNG. DARREN PRICE, ARWEINYDD Y CYNGOR:

"Pa gamau ydych chi'n eu cymryd i osgoi gwrthdaro buddiannau posibl rhwng buddsoddiad cronfa bensiwn Sir Gaerfyrddin yn Bute Energy a'r ffaith y bydd agweddau o brosiectau peilonau Bute Energy gan gynnwys yr is-orsaf yn Llandyfaelog yn cael eu pennu'n lleol gan Gynghorwyr Sir a swyddogion gyda phensiynau sy'n ddibynnol ar lwyddiant prosiectau Bute Energy?"

Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor:-

"Diolch ichi Mr. Hughes am y cwestiwn. Mae aelodau, fel y byddech yn ei ddisgwyl, yn gyfarwydd iawn â gofynion y Côd Ymddygiad ar gyfer datgan buddiannau, hynny yw lle mae ganddynt fuddiant i'w ddatgan, felly rwy'n siŵr y bydd unrhyw aelodau sy'n aelodau o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - ac nid yw pob aelod o reidrwydd - yn gofyn am gyngor gan y Swyddog Monitro pryd y bydd penderfyniadau sy'n gysylltiedig â GreenGEN Cymru yn codi. Yn sicr, fel Arweinydd y Cyngor, byddaf yn annog aelodau i ofyn am y cyngor hwnnw.

Byddwch hefyd yn ymwybodol bod swyddogion yn yr un modd yn rhwym wrth Gôd Ymddygiad. Fodd bynnag, mae'n bwysig gwneud nifer o bwyntiau yma, sy'n codi'n uniongyrchol o'ch cwestiwn. Mae'r pwynt cyntaf yn ymwneud â'ch defnydd o'r term 'buddsoddiad Cronfa Bensiwn Sir Gaerfyrddin'. Gadewch i ni fod yn glir - nid oes y fath beth â Chronfa Bensiwn Sir Gaerfyrddin. Nid wyf yn siŵr a yw defnydd o'r term 'Sir Gaerfyrddin' ar eich rhan yn gamddealltwriaeth ai peidio, ond beth bynnag y bo, byddaf yn ceisio darparu rhywfaint o gyd-destun er mwyn osgoi amheuaeth. Mae swyddogion a rhai cynghorwyr mewn gwirionedd yn aelodau o Gronfa Bensiwn Dyfed, sy'n gorff annibynnol ar wahân sy'n gyfrifol am ymdrin â chronfeydd pensiwn sy'n berthnasol i weithwyr o tua 50 o sefydliadau ledled Sir Benfro, Ceredigion ac yma yn Sir Gaerfyrddin. Mae'r cyrff hyn yn cynnwys, ymysg eraill, Cyngor Sir Ceredigion, Coleg Ceredigion, Prifysgol Aberystwyth, Coleg Sir Gâr, Heddlu Dyfed-Powys, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Coleg Sir Penfro, Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro, Cyngor Sir Penfro, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, yn ogystal â

Chyngor Sir Caerfyrddin a llu o Gynghorau Tref a Chymuned a sefydliadau eraill.

Mae Cronfa Bensiwn Dyfed yn aelod o 'Bartneriaeth Pensiwn Cymru' sy'n bartneriaeth rhwng yr wyth Cronfa Bensiwn Awdurdod Lleol yng Nghymru, a Phartneriaeth Pensiwn Cymru sydd wedi cydlynu'r buddsoddiad yn un neu fwy o Grŵp Cwmnïau Bute.

Rydym bellach yn gwybod mai ymrwymiad y Gronfa Bensiwn yw buddsoddi mewn ffermydd gwynt Bute Energy, ac mae'n bwysig pwysleisio 'ffermydd gwynt' gan nad yw Cronfa Bensiwn Dyfed wedi buddsoddi'n uniongyrchol yn y seilwaith arfaethedig yn Nyffrynnoedd Tywi a Theifi .Gwyddom hefyd fod y penderfyniad i fuddsoddi yn y ffermydd gwynt yn ôl-ddyddio'r llythyron a gyhoeddwyd gan (GGENC)/Bute Energy ym mis Ionawr 2023, a oedd yn darparu ymwybyddiaeth eang wrth gwrs o'r cynlluniau seilwaith ar gyfer y cynllun a elwir yn 'Tywi Wysg'; felly nid oedd Cronfa Bensiwn Dyfed ar yr adeg pan wnaed yr ymrwymiad i fuddsoddi yn ymwybodol bryd hynny y byddai cynigion seilwaith GGENC/Bute yn effeithio ar Sir Gaerfyrddin, neu y byddai'r cynigion seilwaith yn ansensitif neu'n amhriodol.

Mae'n bwysig nodi, gan fod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bartneriaeth rhwng wyth cronfa bensiwn ranbarthol annibynnol, na phleidleisiodd Cyngor Sir Caerfyrddin ar y buddsoddiad ac ni chafodd ei wahodd i gymeradwyo'r buddsoddiad.

Nawr yn amlwg, mae'r cais cynllunio sy'n ymwneud â'r is-orsaf yn Llandyfaelog yn un y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn penderfynu arno, a byddwn yn disgwyl i'r Pwyllgor Cynllunio wneud penderfyniad. Fel y gwyddoch, mae gan y Pwyllgor Cynllunio statws Lled-farnwrol, ac mae'n rhaid i'r aelodau wneud penderfyniadau ar sail polisi cynllunio ac ystyriaethau cynllunio perthnasol. Unwaith eto, mae'r Côd Ymddygiad yn gwbl glir o ran y gofynion ar aelodau'r pwyllgor cynllunio, o ystyried ei natur led-farnwrol. Er y gallaf i, ac aelodau eraill, fynegi barn ar unrhyw gais cynllunio, mater i'r Pwyllgor Cynllunio yw penderfynu ar y cais yn annibynnol, a bydd hyn yn berthnasol yn achos unrhyw gais sy'n ymwneud â'r is-orsaf yn Llandyfaelog.

Nawr fel y gwyddoch, mae fy marn bersonol ar gynnig Green GEN Cymru eisoes yn hysbys. Credaf y dylai'r ceblau gael eu rhoi o dan ddaear, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, er mwyn diogelu ein tirweddau lleol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn wir, mae'r farn honno yn cael ei rhannu gan y Cabinet sy'n eistedd yma y bore yma. Yn olaf, rwy'n siŵr yr hoffem ni i gyd ddiolch i Ann Davies, ein Haelod Cabinet dros Faterion Gwledig, a'r ymgyrchwyr eraill sydd wedi arwain ar hyn, am y gwaith enfawr y maent wedi'i wneud ar yr agenda hon dros y flwyddyn ddiwethaf, ac rwy'n gwybod y byddant yn parhau i frwydro. Diolch yn fawr".

Cwestiwn atodol gan Mr Havard Hughes:

"Mae Bute Energy yn dadlau na allant fforddio rhoi'r ceblau o dan ddaear oherwydd y costau iawndal o £100 y metr ac mae angen iddynt sicrhau'r elw mwyaf posibl i fuddsoddwyr fel Cyngor Sir Caerfyrddin a Chronfa Bensiwn Dyfed

sy'n cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n siŵr bod hyn yn cyfateb i wrthdaro buddiannau sylweddol rhwng preswylwyr, sydd am i'r ceblau gael eu gosod dan ddaear, ac aelodau Cronfa Bensiwn yr Awdurdod Lleol. Yng ngoleuni hyn, a wnewch chi ymrwymo i beidio â buddsoddi rhagor o arian y Gronfa Bensiwn yn Bute Energy, ac i werthuso gallu Sir Gaerfyrddin i ddilyn esiampl Cyngor Sir Powys a thynnu'n ôl cyn gynted ag y bo modd o'r Cynllun?"

Ymateb gan y Cynghorydd Darren Price, Arweinydd y Cyngor i'r cwestiwn atodol :-

“Diolch i chi am hynny. Rwy'n credu eich bod wedi gofyn i mi roi ymrwymiad o ran unrhyw fuddsoddiadau yn Bute Energy yn y dyfodol. Fel yr eglurais yn fy nghwestiwn cychwynnol, rwy'n siŵr eich bod wedi clywed, nid oes gennyf y pŵer i roi unrhyw ymrwymiad ar unrhyw beth sy'n ymwneud â materion pensiwn, maent yn gwbl ar wahân i Gyngor Sir Caerfyrddin; mewn gwirionedd nid oes yr un Cyngor Sir yn y DU gyfan yn rheoli ei fuddsoddiadau pensiwn - maent yn cael eu gosod gan gyrff annibynnol - yng Nghymru mae gennym 8 Cronfa Pensiwn rhanbarthol annibynnol sy'n hollol ar wahân i ni fel Cyngor Sir. Felly, waeth pa benderfyniadau neu ddatganiadau a wnawn fel Cynghorwyr Sir, nid yw'n rhwymo'r Gronfa Bensiwn ei hun. Nawr o ran ein safbwynt fel Cyngor, fel rwyf wedi nodi yn flaenorol, rydym yn gwbwl glir o ran ein safbwynt, nid oes angen trosglwyddo'r ceblau hyn ar beilonau – credwn yn llwyr fod gosod ceblau o dan ddaear a'r dechneg aredig cebl yn arbennig yn hyfyw. Sut ydyn ni'n gwybod hynny? Rydyn ni'n gwybod hynny oherwydd bod gennym gwmni yn Sir Gaerfyrddin sy'n gwneud y gwaith hwn 7 diwrnod yr wythnos - nid yn unig yn y DU ond ar draws Ewrop. Felly, mae'r dechnoleg wedi'i phrofi, mae'r dechnoleg yn gost-effeithiol ac mae'n amlwg bod prosiectau eraill ar draws y byd yn ymgymryd â'r gwaith hwn; felly, o'm safbwynt i, does dim gwrthdaro o gwbl rhwng sicrhau elw ar gyfer y Gronfa Bensiwn a chyflwyno cynllun sy'n parchu ein tirwedd. Penderfyniad y cwmni yw hwn wrth gwrs, mae hynny'n rhywbeth iddyn nhw benderfynu arno, ond fel rydyn ni wedi'i wneud yn gyson, byddem yn eu hannog i wneud y penderfyniad cywir, i ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar hyn ac i osod y ceblau dan ddaear ar gyfer y llwybr cyfan.

Yn ogystal â hynny, o ran y Gronfa Bensiwn a Bwrdd Pensiwn Dyfed - mae gan Fwrdd Pensiwn Dyfed gynrychiolaeth o bob rhan o Ddyfed, ac mae gennym gynrychiolydd ar gyfer Sir Gaerfyrddin, sef y Cynghorydd Alun Lenny, ac maent yno i herio a chraffu ar waith y Gronfa Bensiwn. Efallai eich bod yn ymwybodol bod gan y Bwrdd gyfarfod yfory, ac yn y cyfarfod hwnnw, mae'r Cynghorydd Lenny wedi gofyn i'r Bwrdd ystyried ffordd ymlaen i fuddsoddwyr, ac mae nifer o awgrymiadau wedi'u cyflwyno gan y Cynghorydd Lenny yr ydym yn gobeithio y bydd Cronfa Bensiwn Dyfed yn eu hystyried. Ond yn sicr, yn fy marn i, mae yna ffordd ymlaen sy'n sicrhau bod y Gronfa Bensiwn a'r buddsoddwyr yn cael elw ar eu buddsoddiad, ond sydd hefyd yn diogelu'r dirwedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Y pwynt pwysig iawn i'w wneud yma yw na all Cyngor Sir Caerfyrddin gyfarwyddo Cronfa Bensiwn Dyfed ar ei buddsoddiadau. Mae'n sefydliad hollol ar wahân ac mae'n ddyletswydd ar bawb sy'n trafod y mater hwn yn gyhoeddus i sicrhau bod y sefyllfa honno'n cael ei deall. Mae wedi dod i'm sylw bod deiseb yn

cylchredeg ar hyn o bryd, sydd eto'n cyfeirio at 'fuddsoddiad Cronfa Bensiwn Sir Gaerfyrddin; nawr yn amlwg, rwy'n deall bod gennych gysylltiad agos â'r grŵp cymdeithas preswylwyr hwnnw sy'n ceisio cynrychioli barn preswylwyr - efallai ei bod yn gyfle i chi fyfyrio o bosibl ar rywfaint o eiriad y ddeiseb honno i'w gwneud yn gwbl glir bod hwn yn gorff annibynnol a'i fod yn gwbl ar wahân i'r Cyngor Sir. Mae yna ychydig o sylwadau eraill sydd wedi'u gwneud yn gyhoeddus ar hyn sy'n achosi rhywfaint o bryder os ydw i'n bod yn berffaith onest. Nid wyf yn siŵr a ydych chi yma fel preswylydd, neu fel aelod o'r blaid geidwadol y bore yma, neu a ydych chi yma yn rhinwedd eich swydd fel llefarydd ar ran CRAiG Sir Gâr ond mae gennyf ychydig o gwestiynau yr hoffwn efallai eu gofyn i chi a'r sefydliad yn benodol - yn enwedig ynghylch yr egwyddorion sylfaenol, ethol swyddogion a sut mae llefarwyr yn cael eu pennu. Ond rwy'n siŵr y gallwn wneud hynny y tu allan i'r cyfarfod a gallwn ysgrifennu atoch yn ffurfiol i geisio cael rhywfaint o eglurhad ar hynny oherwydd rwy'n siŵr y byddai nifer ohonom yn y sir yn fwy na pharod i gyfrannu at drafodaethau'r grŵp preswylwyr hwn ac rwy'n siŵr y byddai nifer ohonom o bob rhan o'r sir hon yn gallu adnabod unigolion a all gyfrannu mewn modd cadarnhaol at y trafodaethau hynny, ond fel y dywedais, gallaf godi'r mater hwn gyda chi trwy lythyr y tu allan i'r cyfarfod. Diolch yn fawr iawn".

6. ADRODDIAD MONITRO YNGHYLCH CYLLIDEB REFENIW Y CYNGOR

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad monitro'r gyllideb refeniw a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol fel yr oedd ar 29 Chwefror 2024, o ran 2023/24.

Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad monitro yn rhagweld gorwariant ar gyfer y flwyddyn ar lefel adrannol o £8,472k ac yn rhagweld gorwariant o £4,394k ar gyllideb refeniw net yr Awdurdod.

Mae'r Cyfrif Refeniw Tai a nodir yn Atodiad B yr adroddiad yn rhagweld gorwariant o £46k ar gyfer 2023/24. Nododd y Cabinet y byddai'r sefyllfa'n cael ei hadolygu wrth i'r materion sylweddol a nodwyd ddod yn gliriach o safbwynt ariannol.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

6.1 derbyn adroddiad monitro'r gyllideb, a nodi'r sefyllfa gyllidebol a'r camau unioni priodol a gymerwyd;

6.2 o ran gorwariant sylweddol ar feysydd penodol o'r gyllideb, bydd y Prif Swyddogion a'r Penaethiaid Gwasanaeth yn adolygu'n feirniadol yr opsiynau sydd ar gael iddynt er mwyn mynd i'r afael â'r effaith barhaus.

7. DIWEDDARIAD RHAGLEN GYFALAF 2023/24

Cafodd y Cabinet adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa gyllidebol ar gyfer rhaglen gyfalaf 2023/24, fel yr oedd ar 29 Chwefror 2024 gan fanylu ar y prosiectau newydd a'r trosglwyddiadau ariannol i'w nodi a'u cymeradwyo gan y Cabinet. Nododd Atodiad A i'r adroddiad wariant net a ragwelir o £80,059k o gymharu â chyllideb net weithredol o £140,625k, gan roi amrywiad o -£60,482k.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

Roedd y gyllideb net yn cynnwys rhaglenni cyfalaf gwreiddiol y Cyfrif Refeniw Tai a'r Gronfa Gyffredinol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 1 Mawrth a llithriad o 2022/23. Roedd rhai o'r cyllidebau hefyd wedi cael eu diwygio yn unol â'r gwahaniaethau yn y dyraniadau grant gwirioneddol o gymharu â'r dyraniadau disgwyliedig ar adeg cymeradwyo'r rhaglen, a grantiau newydd oedd wedi dod i law yn ystod y flwyddyn hyd yn hyn. Cyfanswm alldro'r prosiect ar gyfer y flwyddyn oedd £134m gros, sydd £32m yn fwy na'r alldro terfynol o 2022-23. Roedd y gwariant hwn i'w briodoli i wariant sylweddol ar y rhaglen Cyfrif Refeniw Tai, a Phentre Awel.

Roedd Atodiad B i'r adroddiad yn nodi'r prif amrywiadau ym mhob adran.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL:

7.1 bod yr adroddiad ar ddiweddaru'r rhaglen gyfalaf yn cael ei dderbyn;

7.2 nodi a chytuno ar y prosiectau newydd, fel y nodwyd yn yr adroddiad, i'w hariannu o danwariant o ran taliadau cyfalaf y flwyddyn gyfredol.

8. PRYDLES HEN LYS CASTELLNEWYDD EMLYN I GYNGOR TREF CASTELLNEWYDD EMLYN

[NODER: Gan ei bod wedi datgan buddiant yn y mater hwn yn gynharach, gadawodd y Cynghorydd H.A.L Evans y cyfarfod cyn i'r Pwyllgor ystyried y mater a phenderfynu arno.]

Bu'r Cabinet yn ystyried adroddiad a oedd yn nodi cynigion i'r Cyngor brydles hen Lys Castellnewydd Emlyn i Gyngor Tref Castellnewydd Emlyn er mwyn galluogi'r safle i gael ei ddefnyddio at ddibenion adfywio cymunedol.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet fod cyflwr y safle wedi dirywio ers i'r gwasanaeth llyfrgelloedd adael, ac nad oedd unrhyw ddefnydd ymarferol arall gan y Cyngor Sir ar gyfer y safle. Yn ogystal, roedd ymarfer ymgynghori cyhoeddus wedi nodi awydd i'w gadw a'i adnewyddu i fod yn ganolfan aml-ddefnydd / hwb cymunedol yn unol â nod y Cyngor Tref o ddiogelu dyfodol yr adeilad er budd trigolion y Dref.

Rhoddwyd gwybod i'r Cabinet y byddai'r Cyngor Tref yn ceisio sicrhau cyllid o tua £25,000 o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (SPF) i wneud y gwaith adnewyddu angenrheidiol ar y safle, gyda chyllid yn amodol ar y Cyngor Tref yn cael prydles o dymor digonol yn y safle. Yn unol â hynny, cynigiwyd bod y Cyngor yn rhoi prydles am gyfnod o 21 mlynedd am rent hedyn pupur ar yr amod y byddai'r Cyngor Tref yn gyfrifol am yr holl waith atgyweirio, cynnal a chadw, yswiriant a gwariant sy'n gysylltiedig â'r safle o dan y brydles.

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gytuno i'r Cyngor Sir ymrwymo i brydles am 21 mlynedd ar rent hedyn pupur gyda Chyngor Tref Castellnewydd Emlyn.

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf

9. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

_____	_____
CADEIRYDD	**DYDDIAD**

Sylwer: Mae'r cofnodion hyn yn amodol ar gael eu cadarnhau yn y cyfarfod nesaf